

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Deintyddfa Llantrisant

Dyddiad y gweithgarwch: 22 Chwefror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Llantrisant fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ddeintyddfa Llantrisant yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llantrisant. Mae'r practis hefyd yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion y GIG yn unig.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethon siarad â'r prif ddeintydd, sydd hefyd yn berchen ar Ddeintyddfa Llantrisant, ar 22 Chwefror 2022, a ddarparodd wybodaeth i ni a thystiolaeth am y gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) ddefnyddio'r gwasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol y practis

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Clywsom, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu i gynorthwyo â'r gwaith o reoli heintiau a'i wella. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- Roedd gweithdrefnau desgiau clir ar waith ac roedd eitemau diangen wedi cael eu symud o'r ystafelloedd triniaeth, y dderbynfa a'r ardal aros
- Arddangoswyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- Gosodwyd peiriannau hylif diheintio dwylo mewn lleoliadau amrywiol
- Arddangoswyd posterï peswch a thisian
- Gosodwyd sgrin amddiffynnol yn y dderbynfa

Mae'r holl gleifion sydd angen gweld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19.

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, dywedwyd wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y practis.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod yr holl daflenni ac arwyddion sy'n cael eu harddangos yn y

practis yn ddwyieithog. Dywedwyd wrthym fod gan y practis un aelod o staff clinigol sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno cyfathrebu yn eu dewis iaith. Cawsom wybod hefyd fod y practis yn gallu defnyddio gwasanaethau cyfieithu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo. Cawsom wybod, ar ôl yr alwad gwiriad ansawdd, fod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaethau hyn gael eu hyrwyddo yn y practis gan ddefnyddio'r brand Iaith Gwaith. Mae'r brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau'r Gymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Darparwyd manylion cofnodion hyfforddiant staff a nodwyd nad oedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân. Rhaid i'r prif ddeintydd drefnu i'r holl staff yn y practis gael hyfforddiant diogelwch tân.

Gwnaethom argymhell bod y derbynnydd yn cael hyfforddiant diogelu a diogelu data.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Rhestr wirio amserlen glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau ac amserlenni glanhau
- Archwiliad dihalogi
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig
- Gweithdrefnau glanhau â llaw

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli cleifion deintyddol yng Nghymru yn ystod y broses adfer ar ôl pandemig COVID-19.¹ Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

Cadarnhawyd bod pob aelod o staff wedi derbyn asesiad risg manwl COVID-19² er mwyn

¹ Rheoli cleifion deintyddol yn ystod y broses adfer ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU

² Datblygwyd yr Offeryn Asesu Risg i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.

asesu'r risgiau personol o barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19.

Cadarnhawyd hefyd fod y staff y mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio darn hidlo wyneb 3 (FFP3)³ wedi cael prawf gosod i sicrhau bod y masg yn ffitio'n gywir a'i fod yn cynnig amddiffyniad digonol.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen cynnal a chadw dyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodi ar waith ar gyfer yr awtoclaf⁴ a'r bath uwchsonig⁵ yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Dwedwyd wrthym fod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi'i optimeiddio a bod digonedd o stoc yn cael ei gyrchu a'i fonitro'n wythnosol gan y prif ddeintydd.

Gwelsom dystiolaeth fod amserlenni glanhau ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ac amgylchedd y practis ar waith a bod rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cynnal.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad dihalogi a rheoli heintiau cyfunedig wedi cael ei gwblhau ar 20 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod yr archwiliad wedi cael ei seilio ar offeryn archwilio Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA). Rydym yn argymhell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru,⁶ sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.⁷ Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw wahaniaethau rhwng safonau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu nodi.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

³ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

⁴ Math o offer yw awtoclaf a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offerynnau a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir mewn gweithdrefnau proffesiynol.

⁵ Mae glanhawr uwchsonig yn cael gwared ar fio-lwyth drwy ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud trwy'r toddiant glanhau hylifol, maent yn achosi i filiynau o swigod bach ffurfio a byrstio.

⁶ Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGI) yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach. Awdurdod Iechyd Arbennig ydyw yn GIG Cymru ac mae'n cyd-fynd â byrddau ac ymddiriedolaethau ieched.

⁷ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd diheintio. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

-
- Archwiliad cardiau cofnod
 - Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
 - Polisi COVID-19
 - Cynllun parhad busnes
 - Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol i'r holl staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'r prif ddeintydd/ perchennog Deintyddfa Llantrisant yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis. Mae gan y practis un deintydd, un nyrs ddeintyddol a derbynnydd, ac maent i gyd wedi gweithio gyda'i gilydd yn y practis am tua 15 mlynedd. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd â'r gwasanaeth ac ethos y practis.

Roedd y prif ddeintydd yn canmol staff y practis yn fawr, gan dynnu sylw at y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis a'r cleifion, a chefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Rhodddwyd tystiolaeth i ni a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Cawsom gopi o'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. Cawsom gopiâu o archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X.

Cawsom sampl o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom fod y rhain wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Gwelsom fod y practis wedi adolygu ei gynllun parhad busnes yn ddiweddar i sicrhau dilyniant yn narpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym nad oes salwch staff na swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith os bydd argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys bob mis. Dywedwyd wrthym hefyd fod y silindr ocsigen a'r diffibriliwr yn cael eu gwirio'n ddyddiol. Yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU) rydym yn argymhell bod y practis yn cynnal gwiriadau wythnosol o'r cyfarpar a'r

cyffurfiau a ddefnyddir mewn achos brys i sicrhau nad yw eu dyddiad wedi dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Llantrisant

Dyddiad y gweithgarwch: 22 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r prif ddeintydd drefnu bod yr holl staff yn y practis yn cael hyfforddiant diogelwch tân. Gwnaethom argymell hefyd bod y derbynnydd yn cael hyfforddiant diogelu a diogelu data.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Bydd yr holl hyfforddiant gofynnol yn cael ei gwblhau o fewn y mis nesaf.	Huw Wilding	
2	Rydym yn argymell bod y practis yn cwblhau offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sydd wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Cysylltwyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGI). Derbyniwyd gwybodaeth. Bydd archwiliad yn dechrau'n fuan iawn.	Huw Wilding	O fewn yr wythnosau nesaf.

3	Rydym yn argymhell bod y practis yn cynnal gwiriadau wythnosol o'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys i sicrhau nad yw'r dyddiad wedi dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.	Y Cyngor Dadebru (DU)	Cynhelir gwiriadau wythnosol.	Huw Wilding	Yn syth
---	--	-----------------------	-------------------------------	-------------	---------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Huw Wilding

Dyddiad: 14/03/2022